## Ymateb y Llywodraeth: Rheoliadau Diogelu Iechyd (Cyfyngiadau Coronafeirws) (Rhif 2) (Cymru) (Diwygio) (Rhif 18) (Bangor) 2020

1. Dyma ymateb y Llywodraeth i adroddiad drafft y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad dyddiedig 13 Hydref 2020.

**Pwyntiau craffu technegol:**

*Pwynt 1: nid yw'r gair "(Bangor)" wedi ei gynnwys ym mharagraff 1(q)(viii) o Atodlen 4A*

2. Mae'r Adroddiad drafft yn nodi nad yw'r gair "(Bangor)" wedi ei gynnwys ym mharagraff 1(q)(viii) o Atodlen 4A i Reoliadau Diogelu Iechyd (Cyfyngiadau Coronafeirws) (Rhif 2) (Cymru) 2020, fel y'u diwygiwyd gan Reoliadau Rhif 18. Mae hyn wedi ei gywiro yn Rheoliadau Diogelu Iechyd (Cyfyngiadau Coronafeirws) (Rhif 2) (Cymru) (Diwygio) (Rhif 19) 2020 a wnaed ar 16 Hydref 2020.

**Pwyntiau craffu ar rinweddau:**

*Pwynt 1: gwall yn nisgrifiad y Memorandwm Esboniadol o Erthygl 11 o'r Confensiwn Ewropeaidd ar Hawliau Dynol*

3. Mae'r Adroddiad drafft yn nodi bod gwall yn y disgrifiad o Erthygl 11 o'r Confensiwn Ewropeaidd ar Hawliau Dynol yn y Memorandwm Esboniadol. Caiff y gwall ei gywiro.

*Pwynt 3: ni chyhoeddwyd adroddiad Asesiad o'r Effaith ar Gydraddoldeb*

4. Gwnaed y Rheoliadau er mwyn ymateb i argyfwng iechyd y cyhoedd, felly ni fu'n bosibl llunio a chyhoeddi Asesiad o'r Effaith ar Gydraddoldeb ochr yn ochr â'r Rheoliadau. Caiff Asesiad Effaith Integredig o'r cyfyngiadau ar gynulliadau cymdeithasol ei gyhoeddi maes o law.

*Pwynt 4: cais i'r Memorandwm Esboniadol nodi'r dystiolaeth y mae Llywodraeth Cymru yn dibynnu arni*

5. Pan gafodd ardal diogelu iechyd leol Bangor ei sefydlu, roedd tuedd gynyddol yng nghyfraddau treigl digwyddedd COVID-19 dros 7 niwrnod yng Ngwynedd a darparwyd yr wybodaeth hon yn y Memorandwm Esboniadol.

6. Roedd mwy na 50 o achosion am bob 100,000 o'r boblogaeth yn parhau i ddigwydd yng Ngwynedd, gan ei gosod yn y categori lle yr ystyrir camau gweithredu pellach i reoli'r haint. Fodd bynnag, roedd ffigurau Iechyd Cyhoeddus Cymru yn nodi bod y gyfradd digwyddedd ym Mangor lawer yn uwch gyda 318 o achosion am bob 100,000 o'r boblogaeth, o gymharu ag oddeutu 35 o achosion am bob 100,000 o'r boblogaeth ar gyfer gweddill y sir. Roedd 176 o achosion yng Ngwynedd rhwng 4/9/2020 a 7/10/2020, ac roedd 79 o'r rheini yn ardal Bangor.

7. Prif destun pryder y Tîm Rheoli Digwyddiadau oedd cymunedau myfyrwyr ym Mangor. Adroddwyd bod 108 o achosion positif ar y pryd a oedd yn gysylltiedig â'r Brifysgol (cyfradd digwyddedd o oddeutu 390 o achosion am bob 100,000). Yr argymhelliad clir oddi wrth y Tîm Rheoli Digwyddiadau oedd sefydlu ardal diogelu iechyd leol ar gyfer Bangor yn unig.

*Pwynt 5: cais am dystiolaeth o'r angen i'r Rheoliadau ddod i rym cyn iddynt gael eu gosod*

8. Mae'r Llywodraeth yn ystyried bod y cynnydd mewn achosion a ddisgrifir uchod yn dangos ac yn cyfiawnhau'r angen i'r Rheoliadau ddod i rym cyn gynted â phosibl.